**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
Chief Executive and Clerk of the Senedd

Nick Ramsay AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

20 Ionawr 2021

Annwyl Nick

**Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Graffu ar Gyfrifon 2019-20.**

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Graffu ar Gyfrifon 2019-20. Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ei waith craffu.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am nodi ymdrechion staff y Comisiwn i hwyluso busnes y Senedd yn ystod COVID-19 a sicrhau amgylchedd gwaith diogel i bawb. Diolch i chi hefyd am eich llongyfarchiadau am archwiliad llwyddiannus a'n cyflawniadau mewn perthynas â staff, gan gynnwys ennill statws Platinwm Buddsoddwyr mewn Pobl.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i sicrhau'r Pwyllgor ein bod yn parhau i fod mor ymrwymedig ag erioed i ddarparu sicrwydd drwy waith craffu ac archwilio allanol, yn ogystal â'n fframwaith llywodraethu mewnol. Mae'r gwaith hwn yn hanfodol wrth ategu ein hyder ein bod yn defnyddio adnoddau'n effeithlon, yn ddarbodus ac yn effeithiol wrth ddarparu ein gwasanaethau i'r Senedd.

Rhoddir sylw llawn i argymhellion eich Pwyllgor ynghylch y Comisiwn yn yr atodiad. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am unrhyw fater yn yr atodiad, mae croeso ichi roi gwybod imi

Cofiwch fod croeso ichi gysylltu â mi os oes angen rhagor o wybodaeth ar eich Pwyllgor.

Yn gywir,

Manon Antoniazzi

cc Comisiynwyr y Senedd, Nia Morgan

**Atodiad 1**

**Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Graffu ar Gyfrifon 2019-20**

**Argymhelliad 1. Dylai Comisiwn y Senedd gael gwared ar ddangosyddion perfformiad allweddol yn y dyfodol a osodwyd i leihau tanwariant a chanolbwyntio, yn hytrach, ar ddefnyddio adnoddau ariannol mor effeithlon â phosibl.**

**Nodwyd**

Mae'r dangosydd ar leihau tanwariant yn ddefnyddiol i Gomisiwn y Senedd a chaiff ei gadw'n fewnol. Fodd bynnag, byddwn yn adolygu'r dangosyddion perfformiad corfforaethol yn ystod 2021-22 ac yn ystyried a fyddai unrhyw ddangosyddion ychwanegol yn cynnig mwy o eglurder o ran effeithlonrwydd. Caiff y rhain eu rhoi ar waith yn ystod 2022-23.

**Argymhelliad 2: Dylai Comisiwn y Senedd arwain drwy esiampl drwy osod dangosyddion perfformiad allweddol rheoli ariannol uchelgeisiol sy'n ymdrechu i gael mwy na barn archwilio ddiamod. Dylai'r targedau ystyried pa mor effeithiol, darbodus ac effeithlon y mae'r Comisiwn yn defnyddio ei adnoddau, a dylid eu rhoi ar waith erbyn blwyddyn ariannol 2022-23 fan bellaf.**

**Nodwyd**

Fel y nodwyd yn ein hymateb i Argymhelliad 1, byddwn yn adolygu'r dangosyddion perfformiad corfforaethol yn ystod 2021-22 ac yn ystyried a fyddai unrhyw ddangosyddion ychwanegol yn cynnig mwy o eglurder o ran effeithiolrwydd, darbodusrwydd ac effeithlonrwydd y Comisiwn wrth ddefnyddio'i adnoddau. Caiff y rhain eu rhoi ar waith yn ystod 2022-23.

**Argymhelliad 3. Dylai'r Comisiwn sicrhau bod arolygon staff yn y dyfodol:**

- **yn gyson o flwyddyn i flwyddyn er mwyn sicrhau y gellir dod i gasgliadau ystyrlon am dueddiadau tymor hir o'u canfyddiadau; ac**
- **yn gofyn cwestiynau tebyg i arolygon staff deddfwrfeydd a chyrff cyhoeddus eraill er mwyn i'r canlyniadau gael eu meincnodi.**

**Derbyniwyd**

Mae arolwg staff 2020 yn cynnig dull gweithredu newydd; mae wedi'i gaffael mewn partneriaeth â Senedd yr Alban a bydd yn gofyn yr un cwestiynau i raddau helaeth.

Bydd y cwestiynau a ofynnir yn galluogi meincnodi parhaus ar draws y Gwasanaeth Sifil a'r sector cyhoeddus ehangach.

**Argymhelliad 4. Dylai'r Comisiwn gynnal adolygiad o brofiadau ymgeiswyr o gefndiroedd BAME, drwy gydol y broses recriwtio, gyda'r bwriad o gael gwared ar rwystrau i benodi y mae'r adolygiad yn eu datgelu. Dylid cynnal yr adolygiad o fewn blwyddyn gyntaf y Chweched Senedd. Dylai canfyddiadau'r adolygiad fod ar gael i'r Pwyllgor olynol, ynghyd â chamau adferol y mae'r Comisiwn yn bwriadu eu cymryd.**

**Derbyniwyd**

Yn dilyn adolygiad o effeithiolrwydd recriwtio, rydym wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid cymunedol, ymgeiswyr a Busnes yn y Gymuned Cymru i ddeall y rhwystrau i recriwtio y mae ymgeiswyr o gefndir BAME yn eu hwynebu.

Byddwn yn parhau â'n hymrwymiad yn y maes hwn drwy gynnal adolygiad o brofiadau ymgeiswyr ym mlwyddyn gyntaf y Chweched Senedd, a dychwelyd gyda chanfyddiadau, ynghyd ag unrhyw gamau adfer y bydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn eu cynnig cyn y cyfarfod ym mis Medi 2022.

**Argymhelliad 5. Dylai'r Comisiwn sicrhau bod ei borth recriwtio newydd yn casglu data am amrywiaeth economaidd-gymdeithasol ei weithlu a'i ymgeiswyr. Dylid cynnwys y data hyn yn adroddiadau data amrywiaeth blynyddol y Comisiwn yn yr un fformat ag y mae'r Comisiwn wedi'i ddarparu ar gyfer ymgeiswyr BAME (h.y. gyda data sy'n ymwneud â phob cam o'r broses recriwtio).**

**Derbyniwyd**

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i ddeall yn well amrywiaeth economaidd-gymdeithasol ein gweithlu. Byddwn yn ymgysylltu â'r Comisiwn Symudedd Cymdeithasol ac yn defnyddio ei Fynegai Cyflogwyr yn ystod 2021 i ategu'r ymrwymiad hwn, gyda'r gobaith o barhau i wella ein gwaith casglu data.

**Argymhelliad 6. Dylai'r Comisiwn sicrhau y caiff amcanion clir a mesuradwy eu pennu ar gyfer pob gweithgaredd ymgysylltu, y caiff effaith y gweithgareddau hynny ei holrhain ac y caiff eu canlyniadau eu gwerthuso yn erbyn amcanion i benderfynu a ydynt yn cynrychioli gwerth da am arian. Dylid cyhoeddi'r wybodaeth hon yn flynyddol fel rhan o adroddiad blynyddol y Comisiwn.**

**Derbyniwyd**

Byddwn yn parhau i sicrhau bod gan ein holl weithgareddau ymgysylltu amcanion clir a mesuradwy, a'u bod yn cael eu gwerthuso'n drylwyr. Mae'r dystiolaeth o hyn ar gael yn ein hadroddiad blynyddol a'n cyfrifon.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Comisiwn wedi datblygu strategaeth ymgysylltu newydd gyda mwy o bwyslais ar gyrraedd rhannau o'r boblogaeth y mae'n anoddach eu cyrraedd. Er mwyn cyflawni hyn dan gyfyngiadau Covid, rydym wedi cynyddu nifer y gweithgareddau ymgysylltu rhithwir, sydd wedi arwain at gynnydd yn erbyn ein hamcanion.

**Argymhelliad 7. Ddechrau'r Chweched Senedd, dylai'r Comisiwn roi blaenoriaeth i nodi ei grwpiau anodd eu cyrraedd, pennu ffyrdd o ymgysylltu â hwy, a chymryd camau i wneud hynny cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl. Dylai'r strategaeth ymgysylltu hon fod ar gael i'r cyhoedd.**

**Derbyniwyd**

Cyn y Chweched Senedd, rydym eisoes wedi nodi grwpiau anodd eu cyrraedd ac wedi cymryd camau i wella'r ffordd rydym yn ymgysylltu â hwy. Mae strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu'r Comisiwn yn rhoi mwy o bwyslais ar feithrin cysylltiadau â grwpiau y mae'n anoddach eu cyrraedd; y rhai sy'n 'wleidyddol apathetig'.

Ers i ni ymddangos gerbron eich Pwyllgor, rydym wedi cynnal cyfres o ddigwyddiadau yn targedu'r rhai nad ydynt bob amser yn rhan o'r sgwrs, a hynny drwy ddenu cynulleidfaoedd newydd i weithgareddau ymgysylltu'r Senedd. Gwnaethom ganolbwyntio ar bynciau prif ffrwd a oedd yn gysylltiedig â Covid a gweithio gyda sefydliadau eraill.

Roedd hyn yn golygu bod modd i ni ddefnyddio rhestrau cyswllt amrywiaeth eang o sefydliadau fel Cymdeithas Bêl-droed Cymru, Undeb Rygbi Cymru a Black Young Professionals, ac unigolion â llawer o ddilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol, fel Michael Sheen, i godi ymwybyddiaeth o ddigwyddiadau ac i gynnig tocynnau. Mae ein dadansoddiad cychwynnol o'r digwyddiadau yn dangos bod y dull gweithredu hwn wedi talu ar ei ganfed o safbwynt denu cynulleidfaoedd newydd.

Ers y sesiwn graffu, rydym hefyd wedi lansio gwefan newydd y Comisiwn. Dyluniwyd y wefan gan feddwl yn bennaf am gynulleidfaoedd anodd eu cyrraedd. Mae'r ffaith ein bod wedi gwella'r teclyn chwilio yn ei gwneud yn haws i bobl ddod o hyd i'r hyn y maent yn chwilio amdano, a bydd yr eirfa estynedig – gyda phwyslais ar egluro termau ac iaith seneddol – yn gwneud mwy o'n gwybodaeth yn hygyrch i'r rhai nad ydynt yn wleidyddol.

Rydym hefyd wedi diweddaru ein strategaeth cyfryngau cymdeithasol i'w gwneud yn haws ei defnyddio. Mae hyn yn cynnwys defnyddio llais mwy cynnes a chyfeillgar.

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar wella ein darpariaeth cyfryngau cymdeithasol dros y misoedd nesaf.

**Argymhelliad 8. Dylai'r Comisiwn gynyddu caffael gan gyflenwyr nwyddau a chynhyrchion o Gymru sydd o darddiad Cymreig, oni bai nad ydynt ar gael am gost resymol. Dylai gymryd camau i alluogi mwy o gwmnïau o Gymru i gynnig am gontractau, megis drwy rannu contractau mawr yn rhai llai. Dylai camau y mae'r Comisiwn yn eu cymryd yn y maes hwn gael eu cyhoeddi yn ei adroddiad blynyddol wrth i'r ganran gynyddu o flwyddyn i flwyddyn.**

**Derbyniwyd**

Rydym yn gweithio'n galed i wario mwy o arian gyda chyflenwyr Cymreig. Cyn pandemig Covid, roeddem yn gwneud cynnydd yn y maes hwn.

Cyn i ni roi tendrau, rydym yn archwilio'r farchnad Gymreig ac yn annog unrhyw gyflenwyr Cymreig i wneud cynnig. Mae mwy o staff bellach ar gael i helpu i wneud ymgyngoriadau rhagarweiniol yn y farchnad. Am bob contract sy'n werth mwy na £25,000, rydym yn cytuno ar strategaeth gaffael sy'n amlinellu'n dull gweithredu.

Mae hyn yn cynnwys gweld a yw'n ymarferol rhannu'r contract yn lotiau llai. Enghraifft ddiweddar o lwyddiant yw contract yr ystafell argraffu a dyfeisiau amlddefnydd, a rannwyd yn ddwy lot ar ôl cael ei osod fel un contract yn wreiddiol. Yn dilyn hyn, dyfarnwyd y ddwy lot i gyflenwyr o Gymru.

Yn achos rhai o'n contractau mwy, sy'n dibynnu ar is-gontractio, mae gennym rwymedigaethau cytundebol yn y contractau hyn i ddefnyddio cadwyni cyflenwi lleol. Er enghraifft, ein contract mwyaf yn ôl gwerth yw ein contract rheoli cyfleusterau gyda CBRE. Caiff 69 y cant o'n gwariant ar y contract hwn ei is-gontractio a'i gyflawni gan gyflenwyr o Gymru.

Byddwn yn parhau i adrodd ar ein perfformiad caffael yn ein hadroddiad blynyddol.

**Argymhelliad 9. Dylai'r Comisiwn weithio ochr yn ochr â chyrff cyhoeddus eraill, megis Llywodraeth Cymru, i fwyafu'r gyfran a gaffaelir gyda chyflenwyr o Gymru. Dylai'r Comisiwn ysgrifennu at y Pwyllgor hwn neu'r Pwyllgor olynol erbyn mis Medi 2021 i nodi pa ymgysylltiad y mae wedi'i wneud â chyrff cyhoeddus eraill, a'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i wella gwariant gyda chyflenwyr o Gymru o ganlyniad.**

**Derbyniwyd**

Rydym yn cydweithredu'n rheolaidd â chydweithwyr o Lywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach ledled Cymru ar faterion caffael. Mae ein Pennaeth Caffael yn

cael cyfarfod rheolaidd â’r Pennaeth Rheoli Categorïau yn Llywodraeth Cymru, lle y mae trafodaethau ynghylch gwariant Cymru eisoes wedi’u cynnal.

Byddwn yn parhau i weithio ochr yn ochr â chydweithwyr caffael o'r sector i sicrhau ein bod yn parhau i ddangos arfer gorau ac yn cydgysylltu o ran cynyddu gwariant Cymreig. Byddwn yn rhoi’r diweddaraf i’r Pwyllgor erbyn 30 Medi 2021 fan bellaf.

**Argymhelliad 10. Pan fydd y Pwyllgor Busnes, y Bwrdd Taliadau, y Comisiwn ac eraill wedi penderfynu trefniadau busnes y Senedd ar gyfer y Chweched Senedd, dylai'r Comisiwn gynnal adolygiad cynhwysfawr o'i dargedau cynaliadwyedd yn sgil COVID-19 a'i effaith ar batrymau gweithio. Dylai'r targedau newydd hyn fod yn fwy beiddgar ac yn fwy uchelgeisiol na'r rhai diwethaf, a dylid eu cyhoeddi erbyn mis Medi 2021 fan bellaf.**

**Derbyniwyd**

Ar ôl cwblhau’r Strategaeth Lleihau Carbon yn llwyddiannus hyd at 2021, cytunodd y Comisiwn ar gyfres o egwyddorion, targedau a chamau gweithredu a fydd yn sail i’r Strategaeth Carbon Niwtral o 2021 i 2030.

Mae'r Strategaeth Carbon Niwtral yn cael ei chwblhau i'r Comisiwn ei thrafod ym mis Mawrth 2021. Caiff y Strategaeth ei chyhoeddi wedi iddi gael ei chymeradwyo’n derfynol.

Bydd adroddiadau cynaliadwyedd blynyddol yn cael eu llunio a'u cyhoeddi i dynnu sylw at y camau sy’n cael eu cymryd a'n cynnydd yn erbyn targedau. Mae'r targedau a'r uchelgeisiau cyfredol i weithio tuag at fod yn garbon niwtral erbyn 2030 yn sylweddol gryfach a mwy heriol na'n targedau blaenorol.

Mae'r Strategaeth yn cydnabod y bydd y pandemig yn newid y ffordd y mae pobl yn gweithio yn ein swyddfeydd i gynnwys patrymau gweithio hyblycach, ac y bydd hyn yn arwain at gyfleoedd i sicrhau rhagor o arbedion effeithlonrwydd, a fydd yn cyfrannu at ein nod, sef bod yn garbon niwtral erbyn 2030.

Mewn ymateb i'r pandemig, sefydlodd y Comisiwn raglen i gwmpasu pob agwedd ar ein gwaith yn ystod y pandemig presennol a dychwelyd i weithio ar yr ystâd. Mae hyn yn cynnwys llif gwaith y dyfodol sy'n cofnodi’r gwersi a ddysgwyd a chyfleoedd ac arloesedd i ystyried y gwerth strategol hirdymor i'r Senedd a'r Comisiwn er mwyn galluogi ffyrdd mwy hyblyg, adweithiol a chynaliadwy o weithio yn y dyfodol.

Croesewir cymorth ac ymrwymiad y Pwyllgor i'n gwaith parhaus a'n nod strategol i weithio'n gynaliadwy ac edrychwn ymlaen at roi diweddariadau yn y dyfodol i gadarnhau ein cynnydd.